

MYSTERIOUS AFAN CUDD GWLEDDA YN NGHYMRU

Yng Nghymru roeddd y wledd yn ddigwyddiad mawr i'r beirdd a'u noddwyr, lle roedd digon o fwyd a diod ar gael. Yn ôl Cyfraith Hywel Dda, cynhaliwyd gwleddau tair gwaith y flwyddyn, adeg y Nadolig, y Sulgwyn a Phasg ac hefyd fe ddathlwyd gwyliau'r saint.

Roedd yr arfer o gynnig bwyd yn bwysig iawn i'r beirdd. Sonir ganddynt am bob math o fwyd, gan gynnwys bara, gwahanol ddarnau o gig, amrywiol lysiau a ffrwythau yn ogystal â sbeisys a pherlysiau. Roedd y beirdd yn cofnodi anrhegion o aur a phethau eraill, gydag hyn yn dangos pa mor hael oedd y Tywysog. Gwaith y bardd oedd sôn wrth bawb am y cyfoeth hwn, a lledaenu enw da ei noddwr.

Yn y 1400au dywedodd y bardd Guto'r Glyn bod Rhys ap Siancyn o Gwm Nedd wedi rhoi iddo 'gwin a rhost lawer'.

Testun wedi'i addasu o'r gwefannau:

<http://www.gutorglyn.net/gutoswales/gwledd-bwyd-sbeisys.php>

https://en.wikipedia.org/wiki/List_of_Welsh_dishes#CITEREFWebb2012



Medieval Musicians

Master of the Codex Manesse (Additional Painter II), Public domain, via Wikimedia Commons